

# Ymgynghoriad ar newidiadau drafft i ffioedd

Mai 2023



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heblaw am y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol y mae'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd partner rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni ar [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

# Cynnwys

<b>Ynghylch y CFfC</b> .....	<b>4</b>
<b>Ein cynigion</b> .....	<b>5</b>
<b>Y broses ymgynghori</b> .....	<b>10</b>
<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b> .....	<b>12</b>
<b>Atodiad 1: Ein polisi ffioedd</b> .....	<b>14</b>
<b>Atodiad 2: Symiau'r ffioedd a gynigir</b> .....	<b>15</b>
<b>Atodiad 3: Sut mae ein ffioedd adnewyddu yn cymharu â ffioedd rheoleiddwyr eraill</b> .....	<b>17</b>
<b>Atodiad 4: Rheolau ffioedd arfaethedig</b> .....	<b>19</b>
<b>Atodiad 5: Nodyn esboniadol rheolau ffioedd drafft</b> .....	<b>33</b>

# Ynghylch y CFfC

## Pwy ydyn ni

Ni sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain.

Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddyn nhw gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

# Ein cynigion

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Mae'r Senedd wedi rhoi cyfrifoldeb arnom i sicrhau bod gennym yr adnoddau ariannol sy'n angenrheidiol i gyflawni ein rôl reoleiddio a'r dyletswyddau statudol sydd arnom.

Bob blwyddyn rydyn ni'n adolygu ein ffioedd, i ystyried a oes angen i ni eu newid i sicrhau bod gennym yr incwm sydd ei angen arnom ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydyn ni'n ystyried ffioedd fel rhan o ddadansoddiad cyffredinol o'r sefydliad, gan edrych ar ffyrdd o leihau costau, gwneud arbedion effeithlonrwydd a blaenoriaethu ein gwaith. Rydyn ni hefyd yn adolygu ein hincwm a'n lefelau wrth gefn, ac yn ystyried ffynonellau incwm posibl eraill.

Mae ein polisi ffioedd yn allweddol o ran arwain ein ffordd o feddwl – gallwch ddarllen y polisi yn Atodiad 1.

Ar ôl cynnal ein hadolygiad, rydyn ni wedi canfod, er gwaethaf arbedion effeithlonrwydd, bod ein costau gweithredu wedi cynyddu. Mae'r cynnydd hwn wedi'i achosi'n bennaf gan gynnydd sylweddol yn y gyfradd chwyddiant, sef **10% y flwyddyn ar hyn o bryd**. Mae hyn wedi effeithio ar bopeth rydyn ni'n ei wneud.

**O ganlyniad, rydyn ni'n cynnig cynnydd o 7.5% i'r holl ffioedd rydyn ni'n codi amdanynt:**

- cofrestriad technegydd fferyllydd a fferyllydd
- cofrestru safle fferyllol, a'r
- flwyddyn hyfforddiant sylfaen

**Byddai'r newid a gynigir yn golygu y:**

- byddai ffioedd adnewyddu fferyllwyr yn codi gan £19 o £257 i £276
- byddai ffioedd adnewyddu technegwyr fferyllol yn codi gan £9 o £121 i £130
- byddai ffioedd adnewyddu safleoedd fferyllol yn codi gan £27 o £365 i £392

**Rydyn ni'n bwriadu cadw ffioedd ar y lefel bresennol yn ystod 2023, a pheidio â chyflwyno'r ffioedd newydd hyn tan fis Ebrill 2024.**

Gallwch weld rhestr lawn o'r ffioedd a'r cynnydd a gynigir yn Atodiad 2.

Gallwch weld yn Atodiad 3 sut mae'r ffioedd adnewyddu a gynigir yn cymharu â ffioedd a godir gan reoleiddwyr gofal iechyd eraill.

## Ein hagwedd at gynyddu ffioedd

Pan gawsom ein sefydlu, penderfynodd y Senedd bod yn rhaid i'r bobl sy'n cael eu rheoleiddio fod yn gyfrifol yn uniongyrchol am gostau'r rheoleiddio. Felly, wrth ystyried pa ffioedd i'w codi, rydyn ni'n edrych ar faint mae'n ei gostio i reoleiddio pob grŵp cofrestredig. Yna byddwn yn gosod ffioedd ar wahân ar gyfer pob grŵp, ar sail y costau hynny.

Er mwyn sicrhau bod y ffioedd yn addas, rydym yn defnyddio 'model dyrannu costau'. Mae hwn yn dangos yn glir faint yw cost ein gweithgareddau unigol ac yn creu fframwaith ar gyfer trafod ffioedd a osodir. Defnyddion ni'r

model hwn i osod y lefelau ffioedd presennol. Ond gan fod y cynnydd mewn costau yn effeithio ar bopeth ledled y sefydliad yn gyfartal, rydyn ni'n cynnig cynnydd 'ar draws y bwrdd' mewn ffioedd i adlewyrchu hyn.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydyn ni wedi gallu osgoi llawer o'r ffioedd sydd i'w gweld yn Atodiad 2 drwy wella ein heffeithlonrwydd a thrwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r bwlch rhwng incwm a gwariant. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wneud arbedion, gan gynnwys symud swyddfa i adeiladau llai a fydd yn cynhyrchu rhywfaint o arbedion cost. Ond fel llawer o sefydliadau rydyn ni'n gweld ein costau gweithredol yn cynyddu oherwydd cyfraddau chwyddiant uwch, cynnydd mewn biliau cyfleustodau a chostau cyflenwyr, a phwysau costau byw i'r staff rydyn ni'n eu cyflogi. Mae rhagolygon ein cyllideb yn dangos y byddwn yn wynebu diffyg yn y gyllideb yn y blynyddoedd nesaf oni bai ein bod yn cynyddu ein hincwm.

Pe na baem yn cynyddu ein hincwm i dalu ein costau, byddem yn cael ein gorfodi i dorri'n ôl ar ein gwaith rheoleiddio. Ni fyddem bellach yn gallu cynnig yr un lefel o sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod y gofal y maen nhw'n ei dderbyn yn ddiogel ac yn effeithiol.

Gallwch **Ddarllen mwy am ein cyllideb a'n cynllunio ariannol yn ein papur cyllideb diweddar**. Cyflwynwyd hwn i'n cyngor llywodraethu ym mis Chwefror.

Mae'r cynnydd rydyn ni'n ei gynnig yn gymesur â'r gwaith a wnawn i reoleiddio'r holl grwpiau cofrestredig. Dyma pam rydyn ni'n cynnig cynnydd canrannol cyfartal ar yr holl ffioedd cofrestru rydyn ni'n eu codi.

Llwyddon ni i osgoi cynnydd mewn ffioedd yn 2022, er mwyn helpu i leihau'r pwysau ar berchnogion fferyllfeydd a gweithwyr fferyllol proffesiynol. Byddwn yn rhewi ffioedd eto yn 2023 ac rydyn ni'n bwriadu gohirio cyflwyno'r newidiadau hyn tan fis Ebrill 2024.

### Cynnydd mewn ffioedd proffesiynol

Rydyn ni'n deall y gallai fod pobl ym mhob grŵp cofrestru y mae'r cynnydd hwn yn cynrychioli mwy o her iddynt.

Yn rhan o'n hymgyngoriad diweddaraf ar ffioedd ym mis Mawrth 2021, edrychom ni ar yr opsiwn o godi ffioedd is i grwpiau penodol o aelodau cofrestredig proffesiynol fel pobl sy'n gweithio'n rhan amser. Gwnaethom nodi'r gwaith a'r costau dan sylw a gofyn am adborth ar yr opsiwn hwn.

Roedd yr ymatebion a gawsom yn bennaf o blaid cadw strwythur ffioedd gwastad. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo mai dyma'r dull tecaf a symlaf i'w fabwysiadu ar gyfer y CFFC ac ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig.

Rydyn ni'n disgwyl y bydd canran y cynnydd a gynigir yn y ffioedd yn golygu bod y cynnydd mewn costau yn cael ei rannu'n gymesur rhwng grwpiau cofrestredig, a gan unrhyw un sydd angen talu unrhyw un o'r ffioedd eraill a restrir yn atodiad 2.

### Cylch ffioedd aml-flwyddyn

Yn ein hymgyngoriad diweddaraf ar ffioedd, dywedon ni ein bod yn bwriadu ymgynghori ar gyflwyno cylch ffioedd 'aml-flwyddyn'. Byddai hyn yn rhan o strategaeth ffioedd ehangach, a fyddai'n golygu gosod ffioedd cofrestru dros

gyfnod hirach, dros ddwy neu dair blynedd, er enghraifft.

Roeddem yn disgwyl y byddai hyn o fudd i aelodau cofrestredig drwy:

- roi mwy o sicrwydd iddyn nhw am gostau cofrestru yn y dyfodol, a chaniatáu iddyn nhw gyllidebu'n fwy effeithiol
- caniatáu i ni gynllunio ein gwaith dros gyfnod hirach ac o bosibl lledaenu costau dros fwy nag un cyfnod ffioedd, fel y gallem wneud newidiadau ffioedd yn fwy graddol
- lleihau nifer yr ymgynghoriadau ffioedd y byddai angen i ni eu cynnal, ac felly lleihau costau ymgynghori, a lleihau'r amser a'r ymdrech gan aelodau cofrestredig i ystyried ac ymateb i gynigion

Ers i ni ddatblygu'r cynnig hwn, rydyn ni wedi gweld amodau economaidd yn newid yn eithaf sylweddol. Dros y 12 mis diwethaf, mae chwyddiant wedi codi'n sylweddol, ac mae amodau economaidd yn gyffredinol yn fwy amrywiol. Mae hyn yn golygu na allwn, ar hyn o bryd, ragweld ein costau gweithredu yn gywir dros gyfnod o ddwy i dair blynedd, a gosod ffioedd yn seiliedig ar hyn.

**Roedd nifer fawr o bobl a ymatebodd i'n hymgynghoriad blaenorol yn cytuno gyda'n cynigion** i bennu ffioedd ymlaen llaw dros gyfnod o sawl blwyddyn. Egluron nhw y byddai hyn yn helpu busnesau i gynllunio a chyllidebu ar gyfer y newidiadau hyn yn yr hirdymor.

Er nad nawr yw'r amser iawn i fabwysiadu dull aml-flwyddyn, gan na fyddai'n ffordd gymesur o osod ffioedd i fodloni'r meini prawf a nodir yn ein polisi ffioedd, rydyn ni'n dal i gredu mai'r dull hwn o bennu ffioedd yw'r dull cywir yn y tymor hirach. Byddwn yn archwilio ffyrdd o

gyflwyno'r opsiwn hwn mewn adolygiadau ffioedd yn y dyfodol, yn rhan o'n cylch cynllunio a chyllidebu ariannol cyffredinol.

**Gallwch ddarllen mwy am ein cynigion i ddatblygu ein strategaeth ffioedd yn ein dogfen ymgynghori 2021, a darllen yr ymatebion i'r cynigion hyn yn yr adroddiad ymgynghori.**

**[Rhagor o wybodaeth >](#)**

## **Cynigion ffioedd eraill yn y tymor hirach ar gyfer cofrestru safleoedd**

Roedd cynnig allweddol arall yn ein hymgynghoriad ffioedd blaenorol yn ymwneud ag ymchwilio i'r syniad o godi ffioedd ar gyfer safleoedd fferyllol unigol ar sail cost eu rheoleiddio (yn hytrach na'r ffi wastad bresennol). Awgrymodd pobl a ymatebodd y gallai swm y ffi fod yn seiliedig ar nifer neu faint fferyllfeydd a berchnogir, y math o wasanaethau a ddarperir (gan gynnwys gwasanaethau ar-lein), ac elw neu drosiant.

Mae hwn yn ddarn cymhleth o waith. Rydyn ni'n parhau i edrych ar gostau rheoleiddio safleoedd fferyllol, wrth i ni ystyried y gwaith rheoleiddio y gallai fod angen i ni ei wneud a chostau ymateb i ddatblygiadau mewn ymarfer fferyllol.

## **Ffioedd 'craffu' neu 'gydnabyddiaeth'**

O dan ein rheolau ffioedd presennol, efallai y byddwn yn codi ffioedd am 'graffu' ceisiadau gan ymgeiswyr yr AEE a'r Swistir, i 'gydnabod' eu cymwysterau fel rhai sy'n gydradd â chymhwyster yn y DU, ac i wneud cais i ymuno â'n cofrestr fel fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol ar y sail honno. Nid ydym wedi codi'r

ffioedd hyn ers i'r DU adael yr Undeb Ewropeidd ar 1 Ionawr 2021.

Rydyn ni'n parhau i gydnabod rhai ymgeiswyr fel rhan o'r trefniadau 'sefydlog' presennol. Gallwch ddarllen mwy am ein proses gydnabod bresennol yn adran gofrestru ein gwefan.

Ar hyn o bryd mae'r llywodraeth yn datblygu rheoliadau newydd o dan Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol (DCP) 2022 sy'n debygol o newid y gofynion cydnabyddiaeth. Os aiff y DU i gytundebau masnach yn y dyfodol, gall y rhain effeithio ar drefniadau cydnabod.

Rydyn ni wedi penderfynu, gan nad ydyn ni'n gallu codi ffi graffu ar hyn o bryd, na fyddwn yn cynnwys y ddarpariaeth hon yn y rheolau ffioedd newydd a gynigir. Byddwn yn parhau i gyfathrebu â Llywodraeth y DU ynghylch trefniadau'r dyfodol i gydnabod cymwysterau proffesiynol, a byddwn yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau i ffioedd y gallai fod angen i ni eu gwneud o ganlyniad.

### **Achredu a chydabod cyrsiau a chymwysterau**

Yn rhan o'n rôl, rydyn ni'n gosod gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth fferyllol. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnyn nhw i ddarparu'r gofal diogel ac effeithiol y mae cleifion a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl.

Rydyn ni'n cynnal gweithgareddau achredu a chydabod yn rheolaidd i sicrhau bod cyrsiau a chymwysterau'n bodloni'r safonau hyn. Yn hytrach na chodi ffioedd am y gwaith hwn, rydyn ni'n adennill costau'r gweithgareddau hyn

yn uniongyrchol gan y sefydliadau rydyn ni'n eu hachredu.

Wrth i gostau cynnal y gweithgareddau hyn gynyddu, bydd y symiau y byddwn yn anelu at eu hadennill hefyd yn cynyddu. Yn unol â'n cynlluniau ariannol tymor hirach, byddwn hefyd yn ystyried pa fodel ariannol i'w ddefnyddio mewn perthynas â thaliadau ar gyfer achredu yn y dyfodol.

### **Dyfodol fferylliaeth, a'i rheoleiddio**

Rydyn ni'n gwybod y bydd y sector fferyllol yn parhau i esblygu gyda'r heriau a'r newidiadau sydd o'n blaenau. Mae hyn yn cynnwys:

- twf fferyllfeydd a gwasanaethau ar-lein, a sicrhau y gall pobl gael mynediad at feddyginiaeth yn ddiogel ar-lein
- gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd yn chwarae rhan lawer mwy o ran darparu gofal clinigol ac ystod ehangach o wasanaethau clinigol, gan gynnwys presgripsiynu annibynnol
- effeithiau technolegau newydd a datblygiadau gwyddonol ar ofal clinigol
- cleifion a'r cyhoedd yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o ran gofal 'â phobl yn ganolog iddo'

Rydyn ni'n disgwyl y bydd mwy fyth o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o weld fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn gweithio mewn amrywiaeth ehangach o leoliadau fel rhan o dimau clinigol aml-broffesiynol.

Bydd hyn yn golygu newidiadau sylweddol yng nghwmpas a chymhlethdod ein gwaith. Bydd angen i ni:



- allu addasu'n gyflym i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym o'n cwmpas
- defnyddio mwy o wybodaeth, a
- a bod yn rhagweledol o ran ein dull rheoleiddio, er mwyn sicrhau ein bod yn gymesur ac yn effeithiol.

I gyflawni hyn, mae angen i ni sicrhau ein bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a chynaliadwy, wedi ein hariannu'n briodol ac yn deg gan y bobl a'r sefydliadau rydyn ni'n eu rheoleiddio. Bydd ein cynnig i gynyddu ffioedd yn helpu i sicrhau y bydd y rhaglenni gwaith rydyn ni eisoes wedi'u dechrau, a'r rhai y bydd angen i ni eu dechrau dros y misoedd nesaf, yn cael eu hariannu'n effeithiol yn y byrdymor. Mae'n debygol, wrth i'r prosiectau hyn ddatblygu, y bydd angen i ni ystyried goblygiadau adnoddau eto fel rhan o'n gwaith cynllunio busnes yn y dyfodol.

Rydyn ni eisoes wedi dechrau rhaglen waith allweddol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu safonau rheoleiddio newydd ar gyfer rolau wedi'u diweddarau mewn deddfwriaeth meddyginiaethau. Roedd hyn yn dilyn dau orchymyn deddfwriaethol newydd a ddaeth i rym yn Rhagfyr 2022. Rydyn ni wedi dechrau cyfathrebu ag ystod eang o randdeiliaid ar sut i gryfhau llywodraethu fferyllfeydd, gyda'r nod o symud i ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf.

Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu ein ffyrdd newydd o weithio, a'u rhoi ar waith ymhellach, a rhoi strwythurau, systemau a phrosesau gwell ar waith. Bydd hyn yn ein helpu i weithio'n hyblyg ac i gyflawni ein nodau'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys y gwaith rydyn ni'n ei wneud i barhau i ddatblygu ein gwasanaethau ar-lein trwy myGPhC a gwefan CFC newydd.

Mae newidiadau sylweddol hefyd ar y gweill o ran addysg a hyfforddiant fferyllol. Rydyn ni hanner ffordd drwy'r gwaith o weithredu safonau newydd a fydd yn gweld fferyllwyr yn cwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant cychwynnol fel presgripsiynwyr annibynnol o 2026.

Mae cleifion a'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau fferyllol ar-lein mwyfwy i gael meddyginiaethau a thriniaethau. Rydyn ni wedi dechrau gweithio i adnabod themâu yn y mathau o problemau diogelwch cleifion rydyn ni wedi'u canfod wrth archwilio'r gwasanaethau hyn. Wrth i'r ffordd hon o gael gofal fferylliaeth gynyddu, bydd angen i ni barhau â'n gwaith i ddeall a rheoli'r problemau posibl, er mwyn sicrhau bod ein model arolygu yn gweithio'n dda i gadw cleifion yn ddiogel ar-lein.

Mae'r prosiectau allweddol hyn yn rhan o'r gwaith y mae angen i ni ei wneud i gyflawni ein nod o ofal fferylliaeth diogel ac effeithiol wrth galon cymunedau iachach. Gallwch ddarllen mwy am ein rhaglen waith yn ein **Cynllun Strategol 2020-25**.

# Y broses ymgynghori

Mae ein cyngor llywodraethu wedi ystyried ystod o wybodaeth a thystiolaeth yn ofalus wrth ystyried yr ymgynghoriad hwn. Rydyn ni am roi ein barn ar brawf ac yn dymuno sicrhau bod penderfyniadau ynghylch ffioedd yn cael eu gwneud ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael pan fyddan nhw'n cwrdd i drafod yr ymatebion yn hydref 2023.

**Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos o 16 Mai 2023 tan 8 Awst 2023.**

Rydyn ni'n croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Anfonir y ddogfen ymgynghori hon at ystod o randdeiliaid, gan gynnwys gweithwyr fferyllol proffesiynol, presgripsiynwyr fferyllol, perchnogion fferyllfeydd, cyrff cynrychioli cleifion a chyflogwyr, cleifion a chyrff cynrychioli, a phobl eraill sydd â diddordeb yn y maes.

Rydyn ni'n croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan unrhyw un sydd â gwybodaeth neu farn.

Bydd hyn yn ein helpu i roi ein hagwedd at ffioedd ar brawf, yn ogystal â'r cynigion penodol. Bydd hefyd yn ein helpu i asesu effaith bosibl neu fanteision lefelau ffioedd penodol.

Wedi'r ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom.

## Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn ystyried unrhyw newidiadau angenrheidiol.

Bydd y Cyngor yn ystyried creu rheolau ffioedd 2023 yn ei gyfarfod yn hydref 2023, ac os bydd y Cyngor yn eu cymeradwyo, bydd y rheolau'n dod i rym ym mis Ebrill 2024.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnawn.

Byddwch y rhain ar ein gwefan [www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org).

## Pam rydyn ni'n ymgynghori

O dan Orchymyn Fferylliaeth 2010, rhaid ymgynghori cyn pennu safonau neu ofynion (fel lefelau ffioedd). Ymgynghorwn hefyd i sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau statudol yn effeithiol ac yn gymesur wrth gyflawni ein prif amcan, diogelu'r cyhoedd.

## Ymateb i'r ymgynghoriad

### Sut rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich ymateb i'n helpu i ddatblygu ein gwaith. Gofynnwn i chi roi gwybodaeth amdanoch chi ac, os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, eich sefydliad. Defnyddiwn hyn i'n helpu i ddadansoddi effaith bosibl ein cynlluniau ar wahanol grwpiau. Rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn ein holl waith fel rheoleiddiwr proffesiynau

iechyd, ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Mae ffurflen monitro cydraddoldeb ar ddiwedd yr arolwg. Nid oes rhaid ei llenwi, ond os gwnewch, bydd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni.

### Sut rydym yn rhannu'ch gwybodaeth

Os byddwch yn ymateb fel unigolyn preifat, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw nac yn cyhoeddi'ch ymateb unigol.

Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn nodi enw'r sefydliad a gallem gyhoeddi eich ymateb, oni ddywedwch wrthym i beidio. Os ydych am i ran o'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam y credwch fod y wybodaeth rydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau'n ymwneud â mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan o'ch ymateb, neu eich ymateb cyfan, yn gyfrinachol, byddwn yn trafod y cais o ddifri' ac yn ceisio'i barchu. Ond ni allwn warantu y gellir cynnal cyfrinachedd o dan bob amgylchiad.

Os byddwch yn e-bostio ymateb i'r ymgynghoriad ag ymwadiad cyfrinachedd awtomataidd gan eich system TG ynghlwm wrtho, ni fydd hyn, ynndo'i hun, yn rhwymol ar y CFFC.

### Eich hawliau

Dan y gyfraith diogelu data, gallwch ofyn am gopi o'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn neu wybodaeth arall sydd gennym amdanoch. Gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich ymateb. I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a gyda phwy y dylech gysylltu, darllenwch ein polisi preifatrwydd ar ein gwefan.

## Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy fynd i [pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/consultation-draft-changes-fees-2023](https://www.pharmacyregulation.org/get-involved/consultations/consultation-draft-changes-fees-2023) a chwblhau'r holiadur ar-lein yno.

Rydym ni'n annog ymatebwyr i ddefnyddio'r holiadur ar-lein. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon ymateb drwy e-bost, ysgrifennwch eich ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad a'i anfon i ni drwy [consultations@pharmacyregulation.org](mailto:consultations@pharmacyregulation.org)

### Fformatau eraill

Cysylltwch â ni ar [communications@pharmacyregulation.org](mailto:communications@pharmacyregulation.org) os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (mewn print mwy, er enghraifft, neu mewn iaith arall).

### Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon am y broses ymgynghori ei hun, neu sylwadau arni, anfonwch nhw i:

[feedback@pharmacyregulation.org](mailto:feedback@pharmacyregulation.org)

neu gallwch eu postio i'r:

**Tîm Llywodraethu  
Cyngor Fferyllol Cyffredinol  
25 Canada Square  
Llundain  
E14 5LQ**

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Ein Dull

1. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r rhesymeg sydd wedi ei rhoi gennym dros gynyddu ein ffioedd i dalu am y cynnydd yn ein costau gweithredol?

Cytuno'n gryf  
Cytuno  
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  
Anghytuno  
Anghytuno'n gryf  
Ddim yn gwybod

2. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull o gynyddu ffioedd gan yr un ganran ymhlith holl grwpiau aelodau cofrestredig ac ymgeiswyr?

Cytuno'n gryf  
Cytuno  
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  
Anghytuno  
Anghytuno'n gryf  
Ddim yn gwybod

3. Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn effaith uchod.

## Gweithredu

4. Ydych chi'n meddwl bod y cynnydd arfaethedig o 7.5% yn:

Llawer rhy isel  
Ychydig yn rhy isel  
Fwy neu lai'n iawn  
Ychydig yn rhy uchel  
Llawer rhy uchel  
Ddim yn gwybod

5. I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i rewi ffioedd ar gyfer 2023 ac oedi'r cynnydd arfaethedig tan 2024?

Cytuno'n gryf  
Cytuno  
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno  
Anghytuno  
Anghytuno'n gryf  
Ddim yn gwybod

6. Rhowch sylwadau yn egluro'ch atebion i'r ddau gwestiwn effaith uchod.


## Effaith y cynnig

Rydyn ni am ddeall a allai ein cynnig effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a enwir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y rhain yw:

Oedran  
Anabledd  
Ailbennu Rhywedd  
Priodas a phartneriaeth sifil  
Beichiogrwydd a mamolaeth  
Hil  
Crefydd neu gred  
Rhyw  
Cyfeiriadedd Rhywiol

7. Ydych chi'n credu y caiff ein cynnig effaith gadarnhaol neu negyddol ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig?

Rydyn ni hefyd eisiau gwybod a fydd ein cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu



negyddol ar staff fferylliaeth, perchnogion  
fferyllfeydd, fferyllwyr dan hyfforddiant sylfaen,  
a chleifion a'r cyhoedd.

**8. Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion  
yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol  
ar y grwpiau unigol hyn?**

## Atodiad 1: Ein polisi ffioedd

1. Rhaid i'r ffioedd a osodwn dalu am gost darparu ein swyddogaethau rheoleiddio a sicrhau gwydnwch ariannol y sefydliad er mwyn i safonau fferyllol barhau i gael eu cynnal.
2. Byddwn yn dyrannu refeniw a ddaw drwy ffioedd mewn ffordd sy'n ein galluogi i gyflawni ein diben statudol a'n swyddogaethau rheoleiddio, gan osgoi 'ymledu rheoleiddiol', lle gall safonau, canllawiau a rheoleiddio dyfu'n gymhleth, yn aneglur, yn ddryslyd neu lle gallant wrth-ddweud ei gilydd.
3. Byddwn yn gosod safonau ar gyfer gwahanol grwpiau aelodaeth mewn ffordd sy'n ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys: cost rheoleiddio; ffactorau risg cymharol pan fônt yn wybyddus; a ffioedd rheoleiddio grwpiau proffesiynol eraill. Rydym yn ymrwymedig ar ystyried i ffactorau hyn, ond yn cydnabod, o ystyried cymhlethdod y materion hyn, nad oes fformiwla berffaith ar gyfer gwneud penderfyniadau.
4. Byddwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng y ffactorau uchod a'r angen i osgoi gorgymhlethu ein strwythur ffioedd, a allai gynyddu ein costau at ei gilydd.
5. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried ffactorau allanol, gan gynnwys ffactorau economaidd, wrth osod ffioedd, ochr yn ochr â'r angen i gyflawni ein swyddogaethau statudol yn effeithiol.
6. Byddwn yn adolygu'r egwyddorion hyn o dro i dro a sicrhau ein bod yn nodi'n glir unrhyw newid arwyddocaol mewn materion sy'n ein caniatáu i ostwng neu gynyddu ffioedd yn y dyfodol, neu'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny.
7. Byddwn yn ymdrechu'n barhaus i adnabod ffyrdd o wneud ein gweithgareddau rheoleiddio'n fwy effeithlon a'u hegluro wrth ymgynghori ar ffioedd.
8. Byddwn yn ceisio, drwy gynllunio'n effeithiol at y dyfodol a thrwy ystyried ffactorau allanol, osgoi amrywiadau mawr mewn ffioedd, i fyny neu i lawr, yn y dyfodol.

## Atodiad 2: Symiau'r ffioedd a gynigir

Mae'r tablau isod yn dangos y symiau ffioedd presennol, y swm rydyn ni'n bwriadu cynyddu'r rhain ganddo, a chyfanswm y ffi rydyn ni'n bwriadu ei chodi o fis Ebrill 2024. Mae'r holl symiau wedi'u talgrynnu at y bunt agosaf.

Pan fyddwn yn codi ffioedd ailbrosesu (er enghraifft, os nad yw cais yn gyflawn), byddwn hefyd yn cymhwyso'r cynnydd o 7.5% at y tâl hwn.

**Tabl 1: Fferyllwyr: newidiadau arfaethedig i ffioedd o Ebrill 2024**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 7.5% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu fferyllwyr	257	276	19
Asesiad OSPAP	687	739	52
Cais fferyllydd	106	114	8
Anodiad presgripsiynydd annibynnol	57	61	4
Tystysgrif statws proffesiynol	81	87	6
Fferyllydd yn dychwelyd i gofrestriad*	399	429	23
Adfer fferyllydd*	399	429	38

\* Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd fferyllydd y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 7.5% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestriad.

**Tabl 2: Hyfforddeion Sylfaen: newidiadau arfaethedig i ffioedd o 2024**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 7.5% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Cais hyfforddiant sylfaen	142	153	11
Asesiad cofrestru	182	196	14

**Tabl 3: Technegwyr fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Ebrill 2024**

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 7.5% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu technegydd fferyllol	121	130	9
Cais technegydd fferyllol	106	114	8
Tystysgrif statws proffesiynol	81	87	6
technegydd fferyllol yn dychwelyd i gofrestrriad*	202	217	15
Adfer technegydd fferyllol*	202	217	23

\* Mae ystod o ffioedd adfer a dychwelyd i gofrestrriad, yn dibynnu ar sut y gadawodd technegydd fferyllol y gofrestr. Rydyn ni wedi cynnwys y ffioedd a godir yn fwyaf cyffredin, ond byddai'r cynnydd o 7.5% yn berthnasol i bob ffi adfer a dychwelyd i gofrestrriad.

**Tabl 4: Safleoedd fferyllol: newidiadau arfaethedig i ffioedd o fis Ebrill 2024**

Byddai'r cynnydd hefyd yn berthnasol i'r ystod o ffioedd adfer safleoedd.

Ffi	Ffi bresennol (£)	Ffi ar ôl 7.5% o gynnydd (£)	Swm y cynnydd (£)
Adnewyddu safle	365	392	27
Cais cofrestru safle	590	634	44
Trosglwyddo perchnogaeth	79	85	6
Logo fferylliaeth ryngrwyd	50	54	4



## Atodiad 3: Sut mae ein ffioedd adnewyddu yn cymharu â ffioedd rheoleiddwyr eraill


Fel rhan o'n meddylfryd, rydyn ni hefyd wedi ystyried y ffioedd y mae rheoleiddwyr eraill sydd â chyfrifoldebau tebyg yn eu codi nawr, neu'n cynnig eu codi. Mae'r tablau isod yn dangos y ffioedd hyn, gyda'n ffioedd arfaethedig ar gyfer 2024 i'w cymharu.

Mae rheoleiddwyr yn codi gwahanol fathau o ffioedd ac mae ganddynt gyfnodau adnewyddu gwahanol, felly nid yw wastad yn bosibl cymharu'n uniongyrchol.

Mae'r symiau ffioedd a ddangosir ar gyfer adnewyddu cofrestriad llawn am flwyddyn. Yn y tabl canlynol, ar gyfer rheoleiddwyr safleoedd, rydyn ni wedi dewis enghreifftiau sydd mor debyg â phosibl i fferyllfeydd cofrestredig. Trefnir y siartiau o'r isaf i'r uchaf o ran ffi adnewyddu.

Byddai ein ffioedd arfaethedig yn dal i fod ymhlith yr isaf ymhlith rheoleiddwyr tebyg.


**Ffigur 1: Cymharu ein ffioedd adnewyddu arfaethedig ar gyfer fferyllwyr (Ff) a thechnegwyr fferyllol (TFf) â ffioedd adnewyddu proffesiynol 2023 (arfaethedig neu wirioneddol) rheoleiddwyr gofal iechyd eraill**



**Allwedd**

CPIG	Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
CNB	Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
CFfC (TFf)	Ffi adnewyddu arfaethedig technegydd fferyllol CFfC
CFfC (Ff)	Ffi adnewyddu arfaethedig fferyllydd CFfC
COC	Cyngor Optegol Cyffredinol
PSNI	Pharmaceutical Society of Northern Ireland
CMC	Cyngor Meddygol Cyffredinol
COsC	Cyngor Osteopathig Cyffredinol
CDC	Cyngor Deintyddol Cyffredinol
CCC	Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol

**Ffigur 2: Cymharu ein ffi adnewyddu safle fferyllol arfaethedig â ffioedd adnewyddu safle 2023 (arfaethedig neu wirioneddol) rheoleiddwyr gofal iechyd eraill**



# Atodiad 4: Rheolau ffioedd arfaethedig

Gwnaed y rheolau ffioedd presennol yn 2015 ac fe'u diwygiwyd yn 2019 a 2020, pan wnaethom newidiadau i'n ffioedd.

Rydyn ni bellach wedi llunio'r rheolau ffioedd newydd isod, sy'n adlewyrchu'r cynigion ffioedd hyn. Ein bwriad yw i'r rheolau hyn ganslo a disodli rheolau 2015.

Gweler **tudalen Gorchymyn Fferylliaeth a Rheolau 2010** ar ein prif wefan ar gyfer y ddogfen (*Cydgrynhoad answyddogol*) *Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) (Diwygiad) 2020*, sy'n dangos ein ffioedd presennol.

## **RHEOLAU'R CYNGOR FFERYLLOL CYFFREDINOL (FFIOEDD COFRESTRU AC ADNEWYDDU) 2023**

### CYNNWYS

#### RHAN 1 CYFFREDINOL

1. Dyfynnu a chychwyn
2. Dehongliad
3. Diddymu

#### RHAN 2 FFERYLLWYR COFRESTREDIG

- 1. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*
4. Cais am gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr
5. Mynediad i Ran 1 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais
6. Cais am anodiad i gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr
7. Dileu cofnod neu anodiad yn wirfoddol o Ran 1 y Gofrestr

*2. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

8. Adnewyddu cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr
9. Cais i adfer cofnod i Ran 1 y Gofrestr
10. Adnewyddu cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais
11. Adfer anodiad i gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr

*3. Ffioedd eraill*

12. Hysbysiadau a thystysgrifau penodedig
13. Gweinyddu

**RHAN 3  
TECHNEGWYR FFERYLLLOL COFRESTREDIG**

*4. Ffioedd mewn perthynas â chofnod cofrestru*

14. Cais am gofnod yn Rhan 2 y Gofrestr
15. Cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais
16. Dileu cofnod yn wirfoddol o Ran 2 y Gofrestr

*5. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

17. Adnewyddu cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr

*6. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

18. Cais i adfer cofnod i Ran 2 y Gofrestr
19. Adnewyddu cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais


*7. Ffioedd eraill*

20. Hysbysiadau a thystysgrifau penodedig
21. Gweinyddu

**RHAN 4  
SAFELOEDD**

*8. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*

22. Cais am gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr

- 
23. Cais am gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr ar ôl dileu cofnod blaenorol
  24. Cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais
  25. Cais am anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr
  26. Dileu cofnod neu anodiad yn wirfoddol o Ran 3 y Gofrestr

*9. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

27. Adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr

*10. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*

28. Cais i adfer cofnod i Ran 3 y Gofrestr
29. Adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais
30. Adfer anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr

*11. Ffioedd eraill*

31. Gweinyddu

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wedi gwneud y Rheolau hyn wrth ymarfer y pwerau a roddir gan erthyglau 36(1) a 66(1) Gorchymyn Fferylliaeth 2010(1).

Yn unol ag erthygl 66(3) y Gorchymyn hwnnw, mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wedi ymgynghori â'r personau a'r sefydliadau hynny yr ystyria eu bod yn briodol gan gynnwys y personau a'r sefydliadau a restrir yn is-baragraffau (a) i (d) erthygl 36(6) ac yn is-baragraffau (a) i (h) o erthygl 66(3) y Gorchymyn hwnnw(2).

### RHAN 1 CYFFREDINOL

#### 1. Dyfynnu a chychwyn

—(1) Rhaid dyfynnu'r Rheolau hyn fel Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) 2023.

Daw'r rheolau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

#### 2. Dehongliad

—(2) Yn y Rheolau hyn—

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Meddyginiaethau 1968 (3);

mae i "cyn aelod cofrestredig" yr ystyr a roddir ym mharagraff (2);

ystyr "y Gorchymyn" yw Gorchymyn Fferylliaeth 2010;

ystyr "Rheolau Cofrestru" yw'r rheolau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodlen i Orchymyn Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cofrestru) 2010 (4);

mae i "person perthnasol" yr ystyr a roddir ym mharagraff (3);

ystyr "tystysgrif benodedig" yw tystysgrif statws proffesiynol da neu statws proffesiynol cyfredol a gyhoeddir gan y Cyngor mewn perthynas â pherson ac sy'n cynnwys y wybodaeth y cyfeirir ati yn rheol 10(6)(a) i (f) y Rheolau Cofrestru.

At ddibenion y Rheolau hyn, mae person yn "gyn aelod cofrestredig" os—

nad yw'r person bellach wedi'i gofnodi yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr; a

thynnwyd enw'r person o'r Rhan honno o'r Gofrestr mewn ffordd heblaw am gyfarwyddyd gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor o dan erthygl 54(2)(c) neu (3)(a)(i) neu (b)(iv) y Gorchymyn (ystyriaeth gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer); ac

---

<sup>(1)</sup> O.S. 2010/231.

<sup>(2)</sup> Diwygiwyd Erthygl 66(3)(a) gan O.S. 2013/235.

<sup>(3)</sup> 1968 c. 67.

<sup>(4)</sup> Mae'r Rheolau hyn wedi'u cynnwys yn Atodlen O.S. 2010/1617.

nad yw'r person, neu bellach yn gallu cael ei adfer i'r Gofrestr ar gais i'w adfer yn unol ag erthygl 37(1) y Gorchymyn (5) (adfer i'r Gofrestr bersonau neu safleoedd a dynnwyd oddi ar y Gofrestr).

At ddibenion y Rheolau hyn, mae person yn "berson perthnasol" os—

tynnwyd enw'r person—

yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 8 o Ddeddf Fferylliaeth 1954 (6) (cyfarwyddyd anffitrwydd gan Bwyllgor Statudol) o'r gofrestr a gynhelir o dan adran 2(1) y Ddeddf honno; neu

yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan Erthygl 52 Gorchymyn Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferylliaeth 2007 (7) (penderfyniad ynghylch addasrwydd i ymarfer gan y Pwyllgor Disgyblu) wedi'i dynnu o'r gofrestr o fferyllwyr a gynhelir o dan erthygl 10(1) y Gorchymyn hwnnw neu o'r gofrestr o dechnegwyr fferylliaeth a gynhelir o dan erthygl 21(1) y Gorchymyn hwnnw; ac

yn union cyn 27 Medi 2010, nid oedd y person wedi ei gofrestru yn y naill gofrestr na'r llall y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a)(ii); ac

nad yw'r person bellach wedi'i gofnodi yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr

### 3. Diddymu

Diddymir Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) 2015

## RHAN 2

### FFERYLLWYR COFRESTREDIG

#### *12. Ffioedd mewn perthynas â chofnodion neu anodiadau cofrestru*

### 4. Cais am gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr

—(3) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais am gofnod person yn Rhan 1 y Gofrestr.

Ac eithrio fel y crybwyllir ym mharagraff (3) neu (4), y ffi yw £114.

Pan wneir y cais mewn perthynas â pherson perthnasol, y ffi yw £461.

Lle mae'r cais yn cael ei wneud mewn cysylltiad â chyn aelod cofrestredig—

y ffi yw £114 os oedd dileu cofnod y cyn aelod cofrestredig o'r Gofrestr yn wirfoddol;

---

<sup>(5)</sup> Diwygiwyd Erthygl 37(1)(f) gan O.S. 2014/1887.

<sup>(6)</sup> 1954 c.61. Diddymwyd y Ddeddf gan baragraff 1 Atodlen 1 Gorchymyn Fferyllwyr a Thechnegwyr Fferylliaeth 2007 (O.S. 2007/289).

<sup>(7)</sup> O.S. 2007/289. Cafodd y Gorchymyn ei ddirymu gan baragraff 58 Atodlen 4 Gorchymyn Fferylliaeth 2010 (O.S. 2010/231).

y ffi yw £616 os tynnwyd y cofnod hwnnw o dan neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a restrir ym mharagraff (5);

y ffi yw £429 mewn unrhyw achos nad yw o fewn is-baragraff (a) neu (b)

At ddibenion paragraff (4)(b) a rheol 15(4)(b), y darpariaethau rhestredig yw—

Erthygl 37(1)(c) y Gorchymyn (cofnodion twyllodrus neu anghywir);

Erthygl 37(1)(d) y Gorchymyn (materion addasrwydd i ymarfer cyn cofnodi neu adnewyddu cofnod);

erthygl 37(1)(f) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â gofynion o ran trefniadau indemniad); neu

Erthygl 37(1)(g) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus neu wneud datganiad ffug o ran cydymffurfio).

Nid yw paragraff (4)(b) yn gymwys i ddileu cofnod anghywir am beidio â thalu'r cyfan neu unrhyw ran o unrhyw ffi sy'n ofynnol gan erthygl 20(1)(b) neu (2)(b) y Gorchymyn (hawl i gael cofnod yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr).

Mae'r ffi gyfan a bennir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (4) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestrriad.

### **5.Cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 4 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am wneud cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr mewn perthynas â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £276.

### **6.Cais am anodiad i gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr**

—(4) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais am anodiad i gofnod person yn Rhan 1 y Gofrestr mewn perthynas ag arbenigedd.

Ac eithrio fel y crybwyllir ym mharagraff (3), y ffi yw £61.

Y ffi yw £205 lle—

mae'r cais yn cael ei wneud gan aelod cofrestredig neu gyn aelod cofrestredig sydd wedi cael anodi o'r blaen mewn perthynas â'r un arbenigedd, a'r

anodiad wedi'i ddileu o dan reolau a wnaed yn rhinwedd erthygl 27(1)(c) y Gorchymyn (sy'n cynnwys darpariaeth i reolau gael eu gwneud o ran yr amgylchiadau lle caniateir dileu anodiadau i gais).

Mae'r ffi gyfan a bennir ym mharagraff (2) neu (3), fel y bo'n berthnasol, yn daladwy ni waeth a gymeradwyir y cais i gael yr anodiad.

### **7.Dileu cofnod neu anodiad yn wirfoddol o Ran 1 y Gofrestr**

Nid oes ffi yn daladwy mewn perthynas â chais am dynnu'n wirfoddol o Ran 1 y Gofrestr o—

gofnod yn y Rhan honno; neu

anodiad i gofnod yn y Rhan honno mewn perthynas ag arbenigedd.



### *13. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

#### **8. Adnewyddu cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr**

—(5) Y ffi am adnewyddu cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr yw £276.

Caiff person ("P") wneud trefniant gyda'r Cofrestrydd i ohirio talu rhan o'r ffi adnewyddu o dan baragraff (1).

Pan ymrwymir i drefniant o'r fath—

mae'r ffi adnewyddu i'w thalu gan P mewn rhandaliadau trwy ddebyd uniongyrchol; ond daw'r balans sy'n weddill o swm sy'n hafal i gyfanswm y ffi adnewyddu ac unrhyw ffi ychwanegol sy'n ddyledus o dan reol 14 yn daladwy ar unwaith os yw'r Cofrestrydd yn rhoi hysbysiad i P o dan baragraff (4).

Caiff y Cofrestrydd roi hysbysiad i P o dan y paragraff hwn mewn unrhyw achos lle mae P— yn methu â gwneud taliad sydd wedi dod yn ddyledus o dan y trefniant y cyfeirir ato ym mharagraff (2); neu

yn methu â chydymffurfio mewn unrhyw ffordd arall â'r telerau ac amodau y cyfeirir atynt yn rheol 4(2) y Rheolau Cofrestru (talw ffioedd fesul rhandaliadau); neu (c) yn gwneud cais am ddileu cofnod P yn wirfoddol o Ran 1 y Gofrestr.

Nid oes unrhyw beth ym mharagraffau (2) i (4) yn effeithio ar atebolrwydd P i dalu'r ffi adnewyddu gyfan ac unrhyw ffi ychwanegol sy'n ddyledus o dan reol 14.

### *14. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*

#### **9. Cais i adfer cofnod i Ran 1 y Gofrestr**

—(6) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais i adfer cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr.

Lle gwneir y cais yn dilyn dileu cofnod yn wirfoddol—

Y ffi yw £429 os gwneir y cais cyn diwedd y cyfnod o 1 mis sy'n dechrau gyda dyddiad y dileu gwirfoddol; a'r

ffi yw £155 mewn unrhyw achos arall.

Y ffi yw £429 lle gwneir y cais yn dilyn tynnu cofnod o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a bennir yn—

erthygl 37(1)(a) y Gorchymyn (gwrthodiad y Cofrestrydd i adnewyddu cais); neu

erthygl 37(1)(b) y Gorchymyn (methiant i gyflawni dyletswyddau mewn perthynas â chofnod yr aelod cofrestredig).

Pan wneir y cais yn dilyn dileu cofnod o dan neu yn rhinwedd y ddarpariaeth a bennir yn erthygl 37(1)(c) y Gorchymyn (cofnodion twyllodrus neu anghywir)—

y ffi yw £429 os cafodd cofnod anghywir ei ddileu oherwydd peidio â thalu'r cyfan neu unrhyw ran o ffi sy'n ofynnol gan erthygl 20(1)(b) neu (2)(b) y Gorchymyn (hawl i gael cofnod yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr); a'r

ffi yw £616 mewn unrhyw achos arall.

Y ffi yw £616 lle mae'r cais yn cael ei wneud—

yn dilyn dileu cofnod o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a bennir yn—

Erthygl 37(1)(d) y Gorchymyn (materion addasrwydd i ymarfer cyn cofnodi neu adnewyddu cofnod); neu

erthygl 37(1)(f) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â gofynion o ran trefniadau indemniad); neu

erthygl 37(1)(g) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus neu wneud datganiad ffug o ran cydymffurfio); neu

yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor i gais o dan erthygl 57 y Gorchymyn (adfer enwau i'r Gofrestr: addasrwydd i ymarfer).

Mae'r ffi gyfan a bennir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (5) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestriad.

### **10. Adnewyddu cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

—(7) Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 10 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am adfer cofnod yn Rhan 1 y Gofrestr mewn perthynas â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £114.

Mae'r ffi adfer gyfan yn daladwy ni waeth pa ddyddiad y caiff y cofnod ei adfer i Ran 1 y Gofrestr.

### **11. Adfer anodiad i gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr**

—(8) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais i adfer anodiad i gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr.

Y ffi yw £61 os gwneir y cais ar ôl dileu'r anodiad yn wirfoddol.

Y ffi yw £205 os gwneir y cais yn dilyn dileu anodiad o dan reolau a wnaed yn rhinwedd erthygl 27(1)(c) y Gorchymyn (sy'n cynnwys darpariaeth i reolau gael eu gwneud o ran yr amgylchiadau lle caniateir dileu anodiadau i gais).

Mae'r ffi gyfan a bennir ym mharagraff (2) neu (3), fel y bo'n berthnasol, yn daladwy ni waeth a gymeradwyir y cais i adfer yr anodiad.

#### *15. Ffioedd eraill*

### **12. Hysbysiadau a thystysgrifau penodedig**

—(9) Y ffi am adnewyddu hysbysiad yn Rhan 1 y Gofrestr yw £16.

Y ffi am gyhoeddi tystysgrif benodedig mewn perthynas â pherson a gofnodwyd yn Rhan 1 y Gofrestr yw £87.

### **13. Gweinyddu**

—(10) Y ffi am ail-brosesu taliad nad yw wedi ei anrhydeddu gan fanc neu ddarparwr cerdyn person sy'n talu ffi a bennir yn unrhyw un o ddarpariaethau blaenorol y Rhan hon yw £22.

Y ffi am brosesu cais am gofnod yn Rhan 1 y Gofrestr lle mae'r cais wedi ei ddychwelyd i'r ymgeisydd am wybodaeth ychwanegol fwy nag unwaith yw £52 ac mae'r ffi honno'n daladwy yn ychwanegol at y ffi sy'n daladwy o dan reol 4.

## **RHAN 3**

### **TECHNEGWYR FFERYLLOL COFRESTREDIG**

#### *16. Ffioedd mewn perthynas â chofnod cofrestru*

### **14. Cais am gofnod yn Rhan 2 y Gofrestr**

—(11) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais am gofnod person yn Rhan 2 y Gofrestr.

Ac eithrio fel y crybwyllir ym mharagraff (3) neu (4), y ffi yw £114.

Pan wneir y cais mewn perthynas â pherson perthnasol, y ffi yw £316.

Lle mae'r cais yn cael ei wneud mewn cysylltiad â chyn aelod cofrestredig—

y ffi yw £13 os oedd dileu cofnod y cyn aelod cofrestredig o'r Gofrestr yn wirfoddol;

y ffi yw £324 os tynnwyd y cofnod hwnnw o dan neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a restrir ym rheol 4(5);

y ffi yw £217 mewn unrhyw achos nad yw o fewn is-baragraff (a) neu (b).

Nid yw paragraff (4)(b) yn gymwys i ddileu cofnod anghywir am beidio â thalu'r cyfan neu unrhyw ran o unrhyw ffi sy'n ofynnol gan erthygl 20(1)(b) neu (2)(b) y Gorchymyn (hawl i gael cofnod yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr).

Mae'r ffi gyfan a bennir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (4) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestrriad.

### **15. Cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 15 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am wneud cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr mewn perthynas â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £130.

### **16. Dileu cofnod yn wirfoddol o Ran 2 y Gofrestr**

Nid oes ffi yn daladwy mewn perthynas â chais am dynnu cofnod yn wirfoddol o Ran 2 y Gofrestr.

*17. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

**17. Adnewyddu cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr**

—(12) Y ffi am adnewyddu cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr yw £130.

Caiff person ("T") wneud trefniant gyda'r Cofrestrydd i ohirio talu rhan o'r ffi adnewyddu o dan baragraff (1).

Pan ymrwymir i drefniant o'r fath—

mae'r ffi adnewyddu i'w thalu gan T mewn rhandaliadau trwy ddebyd uniongyrchol; ond daw'r balans sy'n weddill o swm sy'n hafal i gyfanswm y ffi adnewyddu ac unrhyw ffi ychwanegol sy'n ddyledus o dan reol 23 yn daladwy ar unwaith os yw'r Cofrestrydd yn rhoi hysbysiad i T o dan baragraff (4).

Caiff y Cofrestrydd roi hysbysiad i T o dan y paragraff hwn mewn unrhyw achos lle mae T—  
yn methu â gwneud taliad sydd wedi dod yn ddyledus o dan y trefniant y cyfeirir ato ym mharagraff (2);  
neu

yn methu â chydymffurfio mewn unrhyw ffordd arall â'r telerau ac amodau y cyfeirir atynt yn rheol 4(2) y Rheolau Cofrestru (talau ffioedd fesul rhandaliadau); neu

yn gwneud cais i dynnu cofnod T yn wirfoddol o Ran 2 y Gofrestr.

Nid oes unrhyw beth ym mharagraffau (2) i (4) yn effeithio ar atebolrwydd T i dalu'r ffi adnewyddu gyfan ac unrhyw ffi ychwanegol sy'n ddyledus o dan reol 23.

*18. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestriadau*

**18. Cais i adfer cofnod i Ran 2 y Gofrestr**

—(13) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais i adfer cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr.

Lle gwneir y cais yn dilyn dileu cofnod yn wirfoddol—

Y ffi yw £217 os gwneir y cais cyn diwedd y cyfnod o 1 mis sy'n dechrau gyda dyddiad y dileu gwirfoddol; a'r

ffi yw £13 mewn unrhyw achos arall.

Y ffi yw £217 lle gwneir y cais yn dilyn tynnu cofnod o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a bennir yn—

erthygl 37(1)(a) y Gorchymyn (gwrthodiad y Cofrestrydd i adnewyddu cais); neu

erthygl 37(1)(b) y Gorchymyn (methiant i gyflawni dyletswyddau mewn perthynas â chofnod yr aelod cofrestredig).

Pan wneir y cais yn dilyn dileu cofnod o dan neu yn rhinwedd y ddarpariaeth a bennir yn erthygl 37(1)(c) y Gorchymyn (cofnodion twyllodrus neu anghywir)—

y ffi yw £217 os cafodd cofnod anghywir ei ddileu oherwydd peidio â thalu'r cyfan neu unrhyw ran o ffi sy'n ofynnol gan erthygl 20(1)(b) neu (2)(b) y Gorchymyn (hawl i gael cofnod yn Rhan 1 neu 2 y Gofrestr); a'r

ffi yw £324 mewn unrhyw achos arall.

Y ffi yw £324 lle mae'r cais yn cael ei wneud—

yn dilyn dileu cofnod o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a bennir yn—

Erthygl 37(1)(d) y Gorchymyn (materion addasrwydd i ymarfer cyn cofnodi neu adnewyddu cofnod); neu

erthygl 37(1)(f) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â gofynion o ran trefniadau indemniad); neu

erthygl 37(1)(g) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â fframwaith datblygiad proffesiynol parhaus neu wneud datganiad ffug o ran cydymffurfio); neu

yn dilyn cymeradwyaeth gan Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor i gais o dan erthygl 57 y Gorchymyn (adfer enwau i'r Gofrestr: addasrwydd i ymarfer).

Mae'r ffi gyfan a bennir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (5) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestriad.

## **19. Adnewyddu cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

—(14) Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 20 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am adfer cofnod yn Rhan 2 y Gofrestr mewn perthynas â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £114.

Mae'r ffi adfer gyfan yn daladwy beth bynnag fo'r dyddiad y caiff y cofnod ei adfer i Ran 2 y Gofrestr.

### *19. Ffioedd eraill*

## **20. Hysbysiadau a thystysgrifau penodedig**

—(15) Y ffi am adnewyddu hysbysiad cofnodi yn Rhan 2 y Gofrestr yw £16.

Y ffi am gyhoeddi tystysgrif benodedig mewn perthynas â pherson a gofnodwyd yn Rhan 2 y Gofrestr yw £87.

## **21. Gweinyddu**

—(16) Y ffi am ail-brosesu taliad nad yw wedi ei anrhydeddu gan fanc neu ddarparwr cerdyn person sy'n talu ffi a bennir yn unrhyw un o ddarpariaethau blaenorol y Rhan hon yw £22.

Y ffi am brosesu cais am gofnod yn Rhan 2 y Gofrestr lle mae'r cais wedi ei ddychwelyd i'r ymgeisydd am wybodaeth ychwanegol fwy nag unwaith yw £52 ac mae'r ffi honno'n daladwy yn ychwanegol at y ffi sy'n daladwy o dan reol 15.

RHAN 1  
SAFLEOEDD

*20. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*

**22.Cais am gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr**

—(17) Ac eithrio fel y crybwyllir yn rheol 25, y ffi mewn perthynas â chais am gofnod safle yn Rhan 3 y Gofrestr yw £634.

Mae'r ffi gyfan a bennir ym mharagraff (1) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestrriad.

**23.Cais am gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr ar ôl dileu cofnod blaenorol**

—(18) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais am gofnod safle yn Rhan 3 y Gofrestr pan—

cafodd y cofnod blaenorol mewn perthynas â'r safle ei dynnu o'r Gofrestr; a

pan mai'r person sy'n gwneud y cais yw'r person a oedd yn cynnal y busnes manwerthu fferyllol yn y safle yn union cyn i'r cofnod gael ei dynnu.

Y ffi yw £768 pan dynnwyd y cofnod blaenorol yn rhinwedd adran 74A(7) y Ddeddf(8) (cofrestru safle: Prydain Fawr) ac nid yw'n bosibl ei adfer i'r Gofrestr mwyach ar gais i'w adfer o dan adran 74C y Ddeddf (darpariaeth atodol mewn perthynas â chofrestru safleoedd: Prydain Fawr).

Y ffi yw £145 lle cafodd y cofnod blaenorol ei dynnu yn rhinwedd cais o dan adran 74G y Ddeddf (dileu gwirfoddol o'r Gofrestr: Prydain Fawr) ac nad yw'n bosibl ei adfer i'r Gofrestr ar gais i'w adfer yn unol ag erthygl 37(2) y Gorchymyn.

Y ffi yw £768 lle cafodd y cofnod blaenorol ei dynnu yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 80 y Ddeddf (pŵer i anghymhwysu a thynnu o'r Gofrestr yn uniongyrchol) a'r cyfarwyddyd hwnnw wedi'i ddiddymu dan adran 83 y Ddeddf (diddymu anghymhwysiad).

Y ffi yw £768 pan dynnwyd y cofnod blaenorol o dan erthygl 14(4)(a) y Gorchymyn (diffyg cydymffurfio â hysbysiadau gwella) ac nad oes modd ei adfer i'r Gofrestr ar gais i'w adfer yn unol ag erthygl 37(2) y Gorchymyn.

Pan ddilëwyd y cofnod blaenorol yn unol ag erthygl 29(3)(b) y Gorchymyn (cofnodion twyllodrus neu anghywir)—

y ffi yw £634 os tynnwyd cofnod anghywir oherwydd diffyg taliad o'r ffi gyfan neu unrhyw ran o ffi sy'n ofynnol gan adran 74B(3) y Ddeddf (amodau cofrestru: Prydain Fawr); a'r

---

<sup>(8)</sup> 1968 c.67. Mewnosodwyd adrannau 74A i 74L gan baragraff 1(1) ac (8) o Atodlen 4 Gorchymyn Fferylliaeth 2010 (O.S. 2010/231). Gwnaed diwygiadau pellach i adran 74C ac adran 74G gan Atodlen. 2 paragraff 9(a) a pharagraff 13 Gorchymyn Fferylliaeth (Fferyllwyr Cyfrifol, Fferyllwyr Arolygol ac ati.) 2022 (O.S. 2022/849) yn y drefn honno. Cafodd Adran 80 ei diwygio gan erthygl 9 Gorchymyn Fferylliaeth (Safonau Adeiladau, Rhwymedigaethau Gwybodaeth ac ati) 2016 (O.S. 2016/372).

y ffi yw £768 mewn unrhyw achos arall.

Mae'r ffi gyfan a bennir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (2) i (6) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir cais am gofrestrriad.

#### **24.Cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 24 neu 25 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am wneud cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr mewn perthynas â'r person y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £392.

#### **25.Cais am anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr**

Y ffi mewn perthynas â chais am anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr mewn perthynas ag arbenigedd yw £61.

#### **26.Dileu cofnod neu anodiad yn wirfoddol o Ran 3 y Gofrestr**

Nid oes ffi yn daladwy mewn perthynas â chais am dynnu'n wirfoddol o Ran 3 y Gofrestr—  
gofnod yn y Rhan honno; neu  
anodiad i gofnod yn y Rhan honno mewn perthynas ag arbenigedd.

*21. Ffioedd mewn perthynas ag adnewyddu Cofrestrriadau*

#### **27.Adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr**

—(19) Y ffi ar gyfer adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yw £392 os yw'r adnewyddiad am gyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y byddai'r cofnod fel arall wedi peidio â bod yn ddilys.

Os bydd y Cofrestrydd yn adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn<sup>(9)</sup>, mae'r ffi ar gyfer adnewyddu'r cofnod i'w gynyddu'n gymesur.

*22. Ffioedd mewn perthynas â chofnod neu anodiad cofrestru*

#### **28.Cais i adfer cofnod i Ran 3 y Gofrestr**

—(20) Mae'r ffioedd a bennir yn y rheol hon yn daladwy mewn perthynas â chais i adfer cofnod safle yn Rhan 3 y Gofrestr.

Y ffi yw £146 pan wneir y cais yn dilyn dileu cofnod yn wirfoddol—

---

<sup>(9)</sup> Rhoddir pŵer y Cofrestrydd i adnewyddu cofnod am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn gan adran 74A(6) Deddf Meddyginiaethau 1968. Gweler hefyd reol 24(8) y Rheolau a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Cofrestru) 2010 (O.S. 2010/1617).

Y ffi yw £768 lle gwneir y cais yn dilyn tynnu cofnod o dan neu yn rhinwedd darpariaeth a bennir yn—

erthygl 37(2)(a) y Gorchymyn (methiant i gydymffurfio â hysbysiad gwella);

adran 74C(1) y Ddeddf (heb adnewyddu cofnod); neu

adran 74I(1) y Ddeddf (heb hysbysiad newid perchnogaeth eiddo manwerthu fferyllol).

Mae'r ffi gyfan a bennir ym mharagraff (2) neu (3), fel y bo'n berthnasol, yn daladwy ni waeth a gymeradwyir y cais i adfer y cofnod.

### **29. Adnewyddu cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yn dilyn cymeradwyo cais**

—(21) Pan gymeradwyir cais y mae ffi a bennir yn rheol 30 yn daladwy mewn perthynas ag ef, y ffi am adfer cofnod yn Rhan 3 y Gofrestr mewn perthynas â'r safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef yw £114.

Mae'r ffi adfer gyfan yn daladwy beth bynnag fo'r dyddiad y caiff y cofnod ei adfer i Ran 3 y Gofrestr.

### **30. Adfer anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr**

—(22) Y ffi mewn perthynas â chais i adfer anodiad i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr yw £61.

Mae'r ffi gyfan a bennir ym mharagraff (1) yn daladwy ni waeth a gymeradwyir y cais i adfer anodiad.

### *23. Ffioedd eraill*

### **31. Gweinyddu**

—(23) Y ffi am ail-brosesu taliad nad yw wedi ei anrhydeddu gan fanc neu ddarparwr cerdyn person sy'n talu ffi a bennir yn unrhyw un o ddarpariaethau blaenorol y Rhan hon yw £22.

Y ffi am brosesu cais am gofnod safle yn Rhan 3 y Gofrestr lle mae'r cais wedi ei ddychwelyd i'r ymgeisydd am wybodaeth ychwanegol fwy nag unwaith yw £52 ac mae'r ffi honno'n daladwy yn ychwanegol at y ffi sy'n daladwy o dan reol 24.

Y ffi ar gyfer gwneud newid i gofnod yn Rhan 3 y Gofrestr i gofnodi newid perchnogaeth busnes manwerthu fferyllol a gynhelir ar safle a gofrestrwyd yn Rhan honno'r Gofrestr yw £ 85.

Rhoddir drwy sêl swyddogol y Cyngor Fferyllol Cyffredinol [*insert date*].

9. 

Cadeirydd

Cofrestrydd



# Atodiad 5: Nodyn esboniadol rheolau ffioedd drafft

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon i'w darllen ochr yn ochr â Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) 2023 ("y Rheolau"). Mae'n darparu esboniad o'r darpariaethau drafft yn y Rheolau ac wedi ei pharatoi ar gyfer ymgynghori i gynorthwyo deall diben ac effaith y cynigion yn y Rheolau.

Gwneir y Rheolau gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol trwy bwerau o dan Erthygl 36 Gorchymyn Fferylliaeth 2010 fel y'i diwygiwyd. Mae Erthygl 19 Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu a chynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllol ("y Gofrestr"), gyda'r erthyglau canlynol yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cofrestru. Mae Erthygl 36 yn caniatáu i'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wneud rheolau mewn perthynas â chodi ffioedd mewn cysylltiad â:

- chais am fynediad i'r Gofrestr;
- cais am anodiad ar gyfer cofnod yn y Gofrestr;
- adnewyddu cofnod yn y Gofrestr;
- cais i adfer cofnod i'r Gofrestr; a
- ffioedd eraill

Bwriad y Rheolau hyn yw dirymu a disodli Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) 2015 ("Rheolau 2015") a wnaed yn flaenorol o dan Erthygl 36 Gorchymyn Fferylliaeth 2010. Diwygiwyd Rheolau 2015 yn 2019 a 2020.

Diben disodli Rheolau 2015 yw gweithredu cynnydd o 7.5% mewn ffioedd. O ystyried nifer y newidiadau, mae'r cynnydd mewn ffioedd yn cael ei weithredu drwy gasgliad newydd o Rheolau, yn hytrach na thrwy ddiwygio Rheolau 2015.

I lefelau'r ffioedd y mae'r prif newidiadau yn y Rheolau. Gwnaed newidiadau hefyd i'r ffioedd craffu a godwyd yn flaenorol mewn perthynas â cheisiadau cofrestru gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (**AEE**) a'r Swistir. Mae'r rhain yn adlewyrchu newidiadau i'r fframwaith deddfwriaethol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd, ac fe'u heglurir yn fanylach isod.

### Strwythur y Rheolau

Mae'r rheolau wedi'u strwythuro i bedair rhan allweddol:

Mae Rhan 1 y Rheolau yn cynnwys darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â dyfynnu, cychwyn, dehongli'r Rheolau a dirymu Rheolau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Ffioedd Cofrestru ac Adnewyddu) 2015 ("Rheolau 2015").

Mae Rhannau 2-4 y Rheolau yn ymwneud â ffioedd fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferyllol sy'n cael eu cofnodi neu eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

Mae Rhan 2 y Rheolau yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â ffioedd ar gyfer fferyllwyr cofrestredig.

Mae Rhan 2 y Rheolau yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â ffioedd ar gyfer technegwyr fferyllol cofrestredig.

Mae Rhan 2 y Rheolau yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â safleoedd fferyllol cofrestredig.

Nodir rhagor o fanylion am y ffioedd a gynhwysir ym mhob Rhan yn y tabl yn Atodlen 1 y nodyn hwn.

### Newidiadau yn Rheolau 2023

Mae'r Rheolau yn ceisio cynyddu'r ffioedd a nodir yn Rheolau 2015 gan 7.5%. Bydd y ffioedd a godir o dan y Rheolau yn cael eu cynyddu fel y'u rhestrir yn y tabl yn Atodlen 1.

Nid yw'r Rheolau'n cynnwys y ffioedd craffu a godwyd o dan Rheolau 2015 ar gyfer fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol gyda chymwysterau o'r AEE a'r Swistir a oedd yn gwneud cais i gofrestru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cydnabod y cymwysterau proffesiynol hyn yn y DU wedi newid ers i'r DU adael yr UE. Mae'r system ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol sydd ar waith ar hyn o bryd yn ddatrysiad dros dro. Rhagwelir y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol o'r AEE a'r Swistir yn ddiweddarach eleni. Pan fydd y fframwaith newydd hwn ar waith, mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn bwriadu cynnig gwelliannau i'r Rheolau er mwyn ailgyflwyno ffioedd craffu lle bo hynny'n briodol.

**Tabl 5: Atodlen 1- tabl o'r codiadau ffioedd arfaethedig**

Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
<b>Ymgeisydd PF neu dramor</b>				
Rhan 2/ Fferyllydd	Adnewyddu fferyllydd / ffi cofnod cyntaf	Rheol 5; Rheol 9 (1)	£257	£276
Rhan 2/ Fferyllydd	Cais fferyllydd a ffioedd uwchraddio	Rheol 4 (2); Rheol 4 (4) a; Rheol 11 (1)	£106	£114
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi anodi / adfer yn dilyn DG	Rheol 6 (2); Rheol 11 (2)	£57	£61
Rhan 2/ Fferyllydd	Adfer anodiadau ar gyfer diffyg cydymffurfio / peidio adnewyddu	Rheol 6 (3); Rheol 11 (3)	£191	£205
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi Tystysgrif Statws Proffesiynol	Rheol 12 (2)	£81	£87
Rhan 2/ Fferyllydd	Amnewid hysbysiad	Rheol 12 (1)	£15	£16
Rhan 2/ Fferyllydd	Ailbroesu taliad a wrthodwyd	Rheol 13 (1)	£20	£22
Rhan 2/ Fferyllydd	Dychwelwyd cais am ragor o wybodaeth	Rheol 13 (2)	£48	£52
<b>Ymgeisydd cydnabyddiaeth awtomatig yr AEE</b>				
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cais	Rheol 4 (2)	£106	£114

Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi cofnod	Rheol 8 (1)	£257	£276
<b>Ymgeisydd cydnabyddiaeth anawtomatig AEE</b>				
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi cais	Rheol 4 (2)	£106	£114
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi cofnod	Rheol 8 (1)	£257	£276
<b>Adfer</b>				
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi Adfer cofnod	Rheol 10 (1)	£106	£114
Rhan 2/ Fferylllydd	Dileu am fethu â bodloni gofynion ailddilysu (diffyg cydymffurfio)	Rheol 9 (5)	£573	£616
Rhan 2/ Fferylllydd	Dileu am fethu ag adnewyddu	Rheol 9 (3) (a); Rheol 9 (4) (a)	£399	£429
Rhan 2/ Fferylllydd	Dileu gwirfoddol, o fewn un mis i'r dyddiad dileu	Rheol 9 (2) (a)	£399	£429
Rhan 2/ Fferylllydd	Dileu gwirfoddol, un mis neu fwy ar ôl y dyddiad dileu	Rheol 9 2 (b)	£144	£155
<b>Dychwelyd i ymarfer</b>				
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi Adfer cofnod	Rheol 10 (1)	£106	£114
Rhan 2/ Fferylllydd	Ffi cais ar gyfer dileu AiY	Rheol 4 (4) (b)	£573	£616



Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cais am ddiffyg cydymffurfio	Rheol 4 (4) (b)	£573	£616
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cais heb fod yn adnewyddu	Rheol 4 (4) (c)	£399	£429
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cais ar gyfer dileu gwirfoddol	Rheol 4 (4) (a)	£106	£114
<b>Cais disgyblu RPSGB</b>				
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cofnod	Rheol 5	£250	£269
Rhan 2/ Fferyllydd	Ffi cais	Rheol 4 (2)	£429	£461
<b>Ymgeisydd PF neu dramor</b>				
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais	Rheol 14 (2);	£106	£114
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Adnewyddu/ ffi cofnod cyntaf technegydd fferyllol	Rheol 15; Rheol 17 (1)	£121	£130
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi Tystysgrif Statws Proffesiynol	Rheol 20 (2)	£81	£87
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Amnewid hysbysiad	Rheol 20 (1)	£15	£16

Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ailbrosesu taliad a wrthodwyd	Rheol 21 (1)	£20	£22
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Dychwelwyd cais am ragor o wybodaeth	Rheol 21 (2)	£48	£52
<b>Ymgeisydd AEE</b>				
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais	Rheol 15	£106	£114
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cofnod	Rheol 19 (1)	£121	£130
<b>Adfer</b>				
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cofnod	Rheol 19 (1)	£106	£114
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais ar gyfer dileu AiY	Rheol 18	£301	£324
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais am ddiffyg cydymffurfio	Rheol 14 (b); Rheol 18 (4) (b); Rheol 18 (5)	£301	£324
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais heb fod yn adnewyddu	Rheol 18 2 (a) ; 18 4 (a)	£202	£217



Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais ar gyfer dileu gwirfoddol	Rheol 18 2 (b)	£12	£13
<b>Dychwelyd i ymarfer</b>				
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cofnod	Rheol 14 (2)	£106	£114
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais am ddiffyg cydymffurfio	Rheol 18 (5) (a)	£301	£324
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais heb fod yn adnewyddu	Rheol 18 (3)	£202	£217
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais ar gyfer dileu gwirfoddol	Rheol 14 (4) (a)	£12	£13
<b>Cais disgyblu RPSGB</b>				
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cofnod	Rheol 19 (1)	£121	£130
Rhan 3 / Technegwyr Fferyllol	Ffi cais	Rheol 14 (3)	£294	£316
<b>Cais Newydd</b>				
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cofrestru safle	Rheol 22 (1);	£590	£634

Rhan yn y Rheolau/ Grŵp Aelodau	Math o ffi	Rheol Ffioedd Perthnasol	Swm y ffi yn Rheolau 2015	Swm y ffi yn Rheolau 2023 ar ôl cynnydd o 7.5%
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi adnewyddu /cofnod cyntaf safle	Rheol 24; Rheol 27 (1) a)	£365	£392
Rhan 4/ Safleoedd	Ailbrosesu taliad a wrthodwyd	Rheol 31 (1)	£20	£22
Rhan 4/ Safleoedd	Dychwelwyd cais am ragor o wybodaeth	Rheol 31 (2)	£48	£52
<b>Adfer</b>				
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cofnod	Rheol 29 (1)	£106	£114
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cais am ddiffyg cydymffurfio	Rheol 23(4); Rheol 28 (3)	£714	£768
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cais heb fod yn adnewyddu	Rheol 23 (5); Rheol 28 (3)	£714	£768
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cais am beidio â thalu	Rheol 23 (2); Rheol 28 (3)	£714	£768
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi cais ar gyfer dileu gwirfoddol	Rheol 23 (3); Rheol 28 (2)	£135	£145
Rhan 4/ Safleoedd	Adfer anodiad	Rheol 25; Rheol 30 (1)	£57	£61
<b>Trosglwyddo perchnogaeth</b>				
Rhan 4/ Safleoedd	Ffi trosglwyddo perchnogaeth	Rheol 31 (3)	£79	£85







---

**Cyngor Fferyllol Cyffredinol**  
**25 Canada Square, Llundain E14 5LQ**  
**Ff 020 3713 8000**  
**E [info@pharmacyregulation.org](mailto:info@pharmacyregulation.org)**

** [@TheGPHC](https://twitter.com/TheGPHC)**  
** [TheGPHC](https://www.facebook.com/TheGPHC)**  
** [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)**  
**[www.pharmacyregulation.org](http://www.pharmacyregulation.org)**